# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal St Nicholas House**

**St. Nicholas House**
**Yr Ystog**
**Trefaldwyn**
**SY15 6AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal St Nicholas House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | St Nicholas House Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r darparwr yn gweithio'n galed i ymgorffori diwylliant lle mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael gofal gan staff gofal sylwgar sy'n cael eu hyfforddi a'u harwain yn dda. Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac y maent yn eu mwynhau.

Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol wedi gwella wrth gyflwyno'r system cynllunio gofal electronig. Caiff y bobl eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal sy'n cael ei deilwra i fodloni eu canlyniadau personol. Mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau eu bod yn darparu'r gofal a'r cymorth cywir i unigolion. O ganlyniad, maent yn cael cymorth da gan y tîm rheoli ac yn llawn cymhelliant i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r bobl. Mae rhaglen barhaus o adnewyddu ar waith er mwyn parhau i wella'r amgylchedd.

Mae trefniadau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei adolygu drwy gymryd safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae'r diwylliant cadarnhaol sydd wedi cael ei greu gan y tîm rheoli yn helpu  ehangu ar fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Mae'r staff gofal yn parchu'r dewisiadau maent yn eu gwneud gan gynnwys lle yr hoffent dreulio eu hamser, pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt ynghyd â'u dewis o fwyd a diod. Cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau am sut y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu a lle bo'n briodol, caiff eu teulu/cynrychiolydd eu cynnwys hefyd. Maent yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir iddynt. Mae'r darparwr yn gwrando ac yn ceisio gwneud newidiadau ar sail eu hawgrymiadau. Mae gwybodaeth am yr hyn y gall y bobl ddisgwyl gan y gwasanaeth yn ogystal â gwybodaeth am bethau o ddydd i ddydd fel bwydlenni ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r tîm rheoli a'r staff yn gweithio'n galed i hyrwyddo llesiant corfforol ac emosiynol yr unigolion. Mae croeso i deulu a ffrindiau fod yn rhan o'u bywydau dyddiol yng nghartref St Nicholas House. Mae'r staff gofal yn cydnabod ac yn parchu pwysigrwydd teulu ac yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r cydberthnasau hyn. Roedd sylwadau gan berthynas/gynrychiolydd yn cynnwys "*nothing is too much trouble for them*" ac "*it's five-star care here*." Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol ac mae'r broses o roi meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda. Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn y cofnodion gofal fel bod y staff gofal yn gwybod pa gymorth sydd ei angen ar y bobl. Mae sylwadau gan y bobl am y staff gofal yn gyson dda ac yn cynnwys "*I feel well cared for and safe*."

Mae gan y darparwr systemau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys y broses recriwtio a rhaglen hyfforddiant sy'n sicrhau y gall y staff gofal ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir wedi'u teilwra i'r anghenion unigol. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol a'r asesiadau risg wedi gwella sy'n helpu i hyrwyddo diogelwch y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n hyrwyddo eu llesiant. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar a'r cyfleusterau'n cael eu gwirio'n rheolaidd ac yn ddiogel i'r bobl eu defnyddio. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i ardal yr ardd fel y gall y bobl fynd i'r ardd yn hawdd a'i mwynhau. Mae rhaglen adnewyddu ac ailaddurno parhaus ar waith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt yn St Nicholas House. Mae'r sylwadau'n cynnwys "*it's lovely living here*" a "*staff are very good*." Mae rhaglen weithgareddau lawn ar waith fel bod modd i'r bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Gwnaethant ddweud wrthym am sut y maent yn cael eu cynnwys wrth ddylunio'r ardd yn ogystal ag am eu profiad yn plannu'r llysiau yn y gwelyau plannu uchel. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da gyda'r gymuned. Mae'r plant o'r ysgol leol yn ymweld â nhw'n rheolaidd, a chaiff y bobl eu cefnogi i fynychu bingo a ffeiriau yn y pentref. Gwelsom fod staff gofal yn weladwy ymhob rhan o'r adeilad er mwyn sicrhau y gallant ymateb yn gyflym pan fo angen. Mae amseroedd prydau bwyd yn achlysur cymdeithasol. Dywed y bobl eu bod yn mwynhau cael eu prydau yn yr ystafell fwyta a gwnaethant ddweud fod y bwyd a'r dewis o fwyd yn dda. Mae'r staff gofal ar gael i roi cymorth i'r bobl sydd ei angen i fwyta ac yfed.

Mae'r darparwr yn gweithio'n galed i sicrhau y cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol. Maent yn y broses o symud eu system cynllunio gofal i un electronig. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan fanylu ar hoff bethau a dewisiadau'r bobl gan gynnwys y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac yn hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol. Gwelsom fod adolygiadau'n cael eu cynnal gydag unigolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau personol yn parhau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Roedd y cofnodion gofal y gwnaethom edrych arnynt a'r trafodaethau â'r bobl yn dangos bod y staff gofal yn gweithio'n galed i sicrhau y caiff canlyniadau personol y bobl eu cyflawni.

Caiff y bobl eu cefnogi i aros mor iach â phosibl. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau yn yr ysbyty. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion gofal y bobl a sut yr hoffent gael cymorth. Mae systemau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhoi fel y'u rhagnodwyd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ac asesir eu gallu i roi meddyginiaeth yn rheolaidd. Mae polisïau meddyginiaeth ar waith i arwain y staff gofal.

Mae prosesau ar waith i amddiffyn y bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r staff gofal yn cael eu hyfforddi a dangosodd y rheini y gwnaethom siarad â nhw eu hymwybyddiaeth o'r broses i'w dilyn os byddant yn pryderu am lesiant unigolyn. Gwelsom fod y staff gofal yn weladwy ymhob rhan o'r gwasanaeth a gwnaethom eu gweld yn gwirio diogelwch yr unigolion sy'n aros yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael ymateb cyflym pan fyddant yn canu eu cloch alw. Mae'r darparwr yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch y bobl i dimau diogelu lleol ac yn gwneud atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pan fydd risg y bydd trefniadau gofal yn eu hamddifadu o'u rhyddid.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant. Mae'r ystafelloedd gwely y gwnaethom edrych arnynt wedi'u personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt. Roedd ffotograffau o deulu a ffrindiau yn weladwy. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y staff gofal yn aml yn eistedd ac yn siarad â'r bobl am hyn, sy'n dangos eu bod yn cydnabod y pwysigrwydd. Siaradodd unigolyn yn gynnes am y ffotograffau gan ddweud mai ei *"memories."* ydyn nhw, Mae cyfarpar ac addasiadau ar waith i gefnogi'r bobl sydd eu hangen. Gwelsom bobl a allai wneud hynny yn symud yn rhydd o amgylch y cartref gan dreulio amser dan do ac yn yr awyr agored. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r rhaglen ailaddurno wedi parhau gyda rhai ystafelloedd wedi cael eu hailaddurno sy'n cynnwys yr ystafell fwyta, a llawr newydd wedi cael ei osod. Mae cynlluniau ar waith i barhau gyda'r rhaglen adnewyddu. Mae blaenoriaeth yn cael ei roi at sicrhau bod gan y bobl ddewis o gyfleusterau ymolchi oherwydd dim ond y cawodydd oedd mewn defnydd ar ddiwrnod ein hymweliad. Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai camau'n cael eu cymryd yn hyn o beth.

Mae gwaith wedi cael ei gwblhau yn yr ardd y tu allan sy'n gwneud yr ardal hon yn hygyrch i bawb. Mae'n ardal hyfryd lle gall y bobl gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau a mwynhau'r amgylchedd heddychlon. Mae gwelyau plannu uchel wedi cael eu gosod lle mae blodau a llysiau wedi cael eu plannu ynddynt. Heb eithriad, dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cael mynd allan i'r ardd i fwynhau'r lle hwn.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Dywedodd staff domestig wrthym eu bod yn cael hyfforddiant a bod ganddynt yr holl offer sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd fel y gellir nodi materion a'u datrys yn gyflym. Dyfarnwyd sgôr o bump (y sgôr uchaf posibl) i'r gegin yn dilyn arolygiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cadarnhaodd staff y gegin eu bod wedi cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwr er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl gyfarpar a all fod angen arnynt. Mae'r bwydlenni y gwnaethom edrych arnynt yn amrywiol ac ar gael yn Gymraeg neu Saesneg i'r bobl.

Mae mesurau iechyd a diogelwch effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfarpar, gan gynnwys teclynnau codi a slingiau. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfarpar hwn yn ddiogel. Caiff gwiriadau eu cynnal ar y cyfarpar diogelwch tân. Nid yw'r ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond rhoddwyd sicrwydd y bydd hyn yn cael ei gyfeirio ato.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli'n gweithio'n galed i greu diwylliant cadarnhaol lle mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gofalu amdanynt yn dda a bod y staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd ar bob agwedd ar y gwasanaeth er mwyn gallu nodi materion a mynd i'r afael â nhw yn gyflym. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio pob agwedd ar y gwasanaeth yn dda. Gall y bobl rannu eu safbwyntiau ar y gwasanaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trafodaethau dyddiol â'r staff gofal, y gweinyddydd a'r rheolwr a welsom yn rhyngweithio â'r unigolion drwy gydol ein hymweliad. Gallant hefyd siarad â'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr gweithrediadau sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac sy'n treulio amser gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff gofal. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyfarfodydd preswyl/perthynas yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel ffordd arall i'r bobl roi eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir iddynt.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae cylchlythyr misol sy'n llawn gwybodaeth ar waith sy'n cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau cymdeithasol dyddiol, bwydlenni yn ogystal â gwybodaeth bwysig. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff cyson sy'n cael eu harwain yn dda. Prin yw'r defnydd o asiantaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan dîm cyfarwydd o staff. Mae cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniad blynyddol o'u gwaith. Gwnaethant ddweud wrthym fod y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rôl. Mae'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn dda. Caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal lle caiff gwybodaeth ei rannu ymhlith y tîm o staff. Mae modd iddynt drafod materion fel grŵp gan gynnwys llesiant y bobl a materion sy'n ymwneud â'r broses o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r cofnodion hyfforddiant dangos bod staff gofal yn cael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy'r rhaglen hyfforddiant. Maent yn dweud wrthym fod y cyfleoedd hyn yn dda ac y bydd unrhyw geisiadau am ragor o hyfforddiant i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau'n bellach yn cael eu cymeradwyo.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff sydd wedi cael eu recriwtio'n briodol. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr holl wiriadau gofynnol ar waith cyn i bobl gweithio. Maent wedyn yn dilyn rhaglen sefydlu fanwl i sicrhau eu bod yn gymwys yn eu rôl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Dylai cynlluniau personol gael eu datblygu gyda'r unigolyn a dylent ddangos sut y bydd yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. Dylent gynnwys y camau i'w cymryd i liniaru risgiau a nodwyd a helpu i gymryd risgiau cadarnhaol. | Cyflawnwyd |
| 16 | Dylai'r bobl gael y cyfle i gael eu cynnwys wrth adolygu eu cynlluniau personol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni eu canlyniadau personol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2024